PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| | | |
|---|---|---|
| | Cyhoeddiad Cychwynnol | |
| 9 Ebrill 2008 | Diwygiad 1 | |
| 25 Ionawr 2011 | Diwygiad 2 | |
| 18 Mehefin 2012 | Diwygiad a Chymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg y brifysgol | |
| 30 Ionawr 2017 | Diwygiad a Chymeradwyaeth gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | N/A |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Cydymffurfio | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 30 Ionawr, 2017 |

3.3 Gall rhai sy'n peidio â datgelu gwrthdaro buddiannau posibl o'r math a ddiffinnir yn 3.2 uchod ac nad ydynt yn cadw at y Polisi hwn, orfod wynebu trefniadau disgyblu perthnasol y brifysgol yn ymwneud â chamymddwyn.

4.1 Os oes gan aelod staff berthynas bersonol â myfyriwr fel y'i diffinnir yn Adran 3 uchod a allai niweidio barn broffesiynol neu gyfaddawdu gonestrwydd, mae'n gyfrifoldeb ar yr aelod staff i roi gwybod yn syth am hynny i'r awdurdod priodol fel y'i diffinnir yn 3.1 uchod. Dylai'r aelod staff wahanu eu hunain oddi wrth unrhyw rai o'u cyfrifoldebau tuag at y myfyriwr dan sylw. Bwriad hyn yw gwarchod y ddwy ochr. Bydd Deon y Coleg yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol a fydd yn cynnwys sicrhau na fydd yr aelod staff dan sylw'n ymwneud â derbyn, goruchwylio, asesu neu arholi'r myfyriwr nac mewn penderfyniadau'n ymwneud â gwobrwyo neu gosbi'r myfyriwr. Os mai Deon y Coleg yw'r aelod staff dan sylw, yna dylai ef/hi roi gwybod i'r Is-ganghellor, a fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid gweithredu'n briodol.

4.2 Dylai staff hefyd fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd o dan adran 3 Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000 i unrhyw un 18 oed a hŷn ymwneud yn rhywiol â rhywun dan yr oedran hwnnw lle maent mewn safle o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r person iau. Mae safle o ymddiriedaeth yn cynnwys edrych ar ôl pobl ifanc sydd mewn addysg lawn-amser. Ceir arweiniad pellach ar y mater hwn yn nogfen y brifysgol,

4.3 Ni ddylai unrhyw berthynas o'r fath a ddatgelir rhwng aelod staff a myfyriwr fod yn anfantais i wneud cwyn o dan pe bai'r berthynas yn dod i ben.

5.1 Rhaid i aelodau staff sicrhau nad yw unrhyw gysylltiadau agos yn achosi mantais neu anfantais i unrhyw aelodau staff neu unigolion eraill. Lle mae cysylltiadau o'r fath rhwng aelodau staff yn y brifysgol, yna mae'r ddau aelod staff yn gyfrifol am ddatgelu perthynas o'r fath i'r awdurdod priodol a sicrhau yr ymdrinnir yn briodol ag unrhyw wrthdaro buddiannau.

P(:[illegible]